# Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009

**2009 mccc 4**

*Pwerau Ymchwilio'r Comisiynydd*

## 16 Cyfyngiadau ar ddatgelu gwybodaeth

(1) Ac eithrio fel y caniateir gan is-adran (2), rhaid i'r Comisiynydd neu staff y Comisiynydd, neu unrhyw berson arall a benodir gan y Comisiynydd beidio â datgelu unrhyw wybodaeth a gynhwysir yn y gŵyn nac unrhyw wybodaeth a roddir iddynt neu a sicrheir ganddynt yn ystod ymchwiliad i'r gŵyn honno, neu at ddibenion yr ymchwiliad hwnnw.

(2) Caniateir i wybodaeth felly gael ei datgelu er mwyn —

(a) galluogi neu helpu'r Comisiynydd i gyflawni unrhyw swyddogaethau a osodir ar y Comisiynydd neu a roddir iddo yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth yn y Mesur hwn,

(b) galluogi'r Comisiynydd i gydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd a osodir ar y Comisiynydd gan neu o dan unrhyw ddeddfiad arall, neu

(c) ymchwilio i unrhyw dramgwydd neu dramgwydd a amheuir neu eu herlyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 16 mewn grym yn unol â **a. 21(2)(b)**(3)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, Adran 16.